# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 13 RHAGFYR 2023 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai) ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd) a G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Mynychu:

R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), L. Allen (Prif Gyfrifydd Grŵp – Tai), S. Issacs (Rheolwr Rhenti), R. Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio), A. Lewis (Swyddog Prosiect Trawsnewid), P. Cooke (Rheolwr Trawsnewid (Arweinydd) – Datgarboneiddio), S. O'Donnell (Prif Swyddog Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig), A. West (Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), F. Wilkins (Rheolwr Gwasanaethau Tai), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), J. Reynolds (Rheolwr Gwasanaethau Landlord), P. Thomas (Swyddog Treftadaeth a Chreu Lleoedd), K. Watkins (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Thenantiaid) D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol) a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TREFNIADAU COFNODI A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch Yma I Weld.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth C. Harrhy (Prif Weithredwr) ac R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr canlynol fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr agenda – Taliadau Cyfrif Refeniw Tai – 2024/2025

Y Cynghorydd C. Andrews am fod perthynas y mae ganddi bŵer atwrnai ar ei gyfer yn denant y Cyngor.

Y Cynghorydd N. George am ei fod yn denant garej.

Y Cynghorydd E. Stenner am fod perthynas yn denant garej.

Y Cynghorydd P. Leonard am ei bod yn denant garej.

Y Cynghorydd J. Pritchard am fod perthynas yn denant tai'r Cyngor.

Y Cynghorydd S. Cook am fod perthynas yn denant tai'r Cyngor.

Gan mai buddiannau personol yn unig oedd y rhain, nid oedd yn ofynnol iddyn nhw adael y Siambr ac roedd modd iddyn nhw gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda – Cofrestr a Strategaeth Adeiladau Rhestredig mewn Perygl gan ei fod yn gefnogwr i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Rhiw'r Perrai. Gan fod y buddiant yn un personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddo adael y Siambr ac roedd modd iddo gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Datganodd y Cynghorydd C. Morgan fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda – Cofrestr a Strategaeth Adeiladau Rhestredig mewn Perygl gan ei fod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Castell Rhiw'r Perrai, a gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd C. Andrews fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 12 ar yr agenda – Ymgynghoriad ar Gynigion i Weithredu Premiymau Treth y Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi gan fod gan berthynas dŷ sydd wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn. Gan fod y buddiant yn un personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddi adael y Siambr ac roedd modd iddi gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

## 3. COFNODION – DYDD MERCHER 15 TACHWEDD 2023

PENDERFYNWYD yn amodol ar newid i baragraff 2 yn eitem 5 ar yr Agenda (Canolfan Hamdden Pontllan-fraith) sy'n darllen: *'Croesawodd y Cabinet Mr Lloyd, un o'r trigolion lleol a siaradodd yn erbyn cau'r Ganolfan Hamdden.'* Y newid i ddarllen *'Croesawodd y Cabinet Mr Lloyd, preswylydd lleol yn siarad yn erbyn y cynnig i'r Ganolfan Hamdden aros ar gau.'*

Cymeradwywyd cofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Rhoddwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd hyd at 27 Chwefror 2023.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi. Trwy godi dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

## 5. RHAGLEN BAND B CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY - ADRODDIAD YMGYNGHORI: CYNNIG YSGOL Y LAWNT AC YSGOL GYNRADD RHYMNI UCHAF.

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd, 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar y cynnig Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mewn perthynas ag adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol.

Nododd y Cabinet fod y cynnig yn ceisio creu adeilad ysgol cynaliadwy gyda chyfleusterau a rennir, ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a defnydd Cymunedol. Bydd y ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn parhau fel endidau ar wahân, wedi'u lleoli o fewn yr adeilad dau ddiben newydd.

Yn dilyn ymholiadau a godwyd gan y Cabinet, eglurodd y Rheolwr Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fod yr adroddiad wedi mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cael barn, cyn i'r Cabinet ystyried cyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer ymgynghoriad 28 diwrnod. Yr ymgynghoriad statudol yw'r pwynt lle gall pobl wrthwynebu neu gefnogi'r cynnig yn ffurfiol. Yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol, byddai adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill 2024 i'r Cabinet ei ystyried.

Nododd y Cabinet fod Cod Trefniadaeth Ysgolion LlC yn darparu rhestr benodedig o'r ymgyngoreion y cysylltwyd â nhw i gyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn ogystal, cafodd holl rieni'r ddwy ysgol eu cynnwys yn y broses ymgynghori.
Cafwyd 19 o ymatebion, 18 ar-lein ac 1 trwy e-bost. Dim ond un o'r ymatebion a dderbyniwyd a wnaed trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ymatebion hyn wedi eu dadansoddi yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Swyddog sicrwydd i'r Cabinet y byddai'r holl bartïon perthnasol yn ymwneud ag agwedd dylunio'r ysgol a chyfleusterau Cymunedol i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

Gan nad oedd y Cynghorydd P. Leonard wedi bod yn bresennol drwy gydol y drafodaeth, nodwyd felly na chymerodd ran yn y bleidlais.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Ystyriwyd yr wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori.
2. Cymeradwyo symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

## 6. COD TREFNIADAETH YSGOLION 2018 - ADRODDIAD YMGYNGHORI: CYNNIG I GAU YSGOL FABANOD CWM GLAS.

Ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd, 2023.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â chau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn mis Gorffennaf 2024 ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol.

Yn dilyn ymholiad a godwyd gan y Cabinet, dywedodd y Swyddog fod yr ymgynghoriad yn cydnabod bod themâu cyson wedi dod i'r amlwg e.e. y prosesau trosglwyddo a'r effaith ar y disgyblion, fodd bynnag esboniodd y Swyddog y byddai disgwyl i ddisgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas drosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-brain yng Nghyfnod Allweddol 2 yn amodol ar ddewis y rhieni. Felly, y cynnig yw pontio yn gynharach. Sicrhawyd y Cabinet y byddai cydweithwyr ym maes derbyniadau yn gweithio'n agos gyda rhieni trwy gydol y cyfnod pontio. Gwelodd yr ymgynghoriad hefyd bryderon ynghylch goblygiadau staffio. Sicrhawyd y Cabinet y byddai AD yn darparu'r holl gymorth perthnasol i staff drwy gydol y broses.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar y broses ymgynghori. Sicrhaodd y Swyddfa'r Cabinet bod yr holl bartïon perthnasol fel yr amlinellwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion LlC wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori. Cafwyd 21 o ymatebion sydd i gyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Ystyriwyd yr wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori.
2. Symud ymlaen i Rybudd Statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn Gorffennaf 2024.

## 7. TALIADAU CYFRIF REFENIW TAI - 2024/2025.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Cabinet ar y cynnydd yn y taliadau rhent Tai Cyngor a gynigiwyd yn yr adroddiad, cyn i'r Cabinet ei ystyried. Mae'r taliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar renti tai cyngor, ond maent hefyd yn cynnwys garejys, a bwriedir iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i ystyried yn y Pwyllgor Craffu Arbennig Tai a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023, a bod eu sylwadau wedi'u cynnwys yn Ymgynghoriad Adran 10 yr adroddiad.

Yn dilyn ymholiad a godwyd gan y Cabinet, dywedodd y Pennaeth Tai, fel rhan o'r ymrwymiad gyda Llywodraeth Cymru, fod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu meincnod fforddiadwyedd cydnabyddedig, wrth osod rhenti flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Cartrefi Caerffili wedi mabwysiadu'r meincnod, sy'n cael ei osod gan Sefydliad Joseph Rowntree, o'r enw'r Model Rhenti Byw, ac a ddefnyddir i wirio fforddiadwyedd.

Nododd y Cabinet, wrth edrych ar y model meincnod fforddiadwyedd hwnnw, fod y mwyafrif helaeth o holl gartrefi Caerffili, hyd yn oed gyda'r cynnydd o 6.7%, yn dal i gael eu hystyried yn fforddiadwy ac yn is na'r trothwy hwnnw ac felly, yn cael eu hystyried yn fforddiadwy yn erbyn y meincnod hwnnw, mae'r ystadegau yn yr adroddiad yn esbonio union lefel y rhent. O ran rhent wythnosol Caerffili, mae'n 5.2% yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer awdurdodau lleol.

Nododd y Cabinet ymhellach fod rhenti Cartrefi Caerffili yn fforddiadwy ac yn sylweddol is na'r sector preifat. Mae Cartrefi Caerffili hefyd y trydydd isaf o ran rhenti yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar y cymorth sy'n cael ei roi i 23% o gwsmeriaid Cartrefi Caerffili nad ydyn nhw'n hawlio budd-dal tai na Chredyd Cynhwysol. Sicrhaodd y Swyddog y Cabinet bod y Tîm Rhenti yn canolbwyntio ar gymorth tenantiaeth. Mae 2,700 o denantiaid wedi cael cymorth a chyngor. Cafwyd 712 o geisiadau llwyddiannus am daliadau tai yn ôl disgresiwn a 310 o atgyfeiriadau i Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a rhoi eu barn arnyn nhw.

2. Cymeradwyo’r cynnydd canlynol o fis Ebrill 2024 yn seiliedig ar yr opsiynau a eglurwyd yn yr adroddiad.

   (i) Cynyddu'r rhent fesul eiddo i'r uchafswm a ganiateir yn unol â pholisi rhenti LlC sef 6.7%. Byddai hyn yn cynyddu’r rhent cyfartalog presennol gan £6.68 yr wythnos o £99.72 i £106.40 yr wythnos dros 52 wythnos.

   (ii) Bod lefel y rhent ar gyfer garejys o fis Ebrill 2024 yn cael ei gynyddu gan yr un lefel sef 6.7% i £9.44 yr wythnos.

## 8. AD-DREFNU SWYDDFEYDD TAI.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am farn a chymeradwyaeth y Cabinet ar y cynigion i gau'r Swyddfeydd Tai yn y Gilfach, Parc Lansbury, Graig-rhaca a Thŷ Sign yn barhaol, gan roi gwasanaeth tai canolog yn eu lle, wedi'i leoli yn Nhŷ Penallta, fel rhan o gynnig i foderneiddio a gwella gwasanaethau tai.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Arbennig Tai a'r Amgylchedd ar 21 Tachwedd 2023 a bod eu sylwadau wedi'u cynnwys yn Ymgynghoriad Adran 10 yr adroddiad.

Holodd y Cabinet a ellid newid y Swyddfeydd Tai yn opsiynau tai pellach. Cadarnhaodd y Swyddog y bydd y safleoedd yn cael eu hasesu ac os ydyn nhw’n addas, bod potensial iddyn nhw gael eu datblygu'n llety byw. Ond hysbysodd y Swyddog y Cabinet hefyd nad yw'r holl asedau y maen nhw’n bwriadu eu cau o dan reolaeth yr HRA.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fydd yr Hybiau Llyfrgell yn cael eu defnyddio, fel bod trigolion yn gallu cael mynediad i ardaloedd gwasanaethau tai. Cadarnhaodd y Swyddog y bydd hwn yn un o lawer o wasanaethau a fydd ar gael. Bydd ymgysylltu digidol hefyd yn digwydd gan gynnwys cyflwyno Porth Tenantiaid newydd.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch gwelliannau i’r ddarpariaeth gwasanaeth a chymorthfeydd sydd wedi’u cynnal yn y Gymuned, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai wrth y Cabinet eu bod nhw wedi cael eu treialu mewn nifer o ardaloedd sy’n cynnwys Caerffili, Coed Duon, Rhymni, Rhisga, Graig-y-rhaca ac yn Nhŷ Penallta. Fodd bynnag, drwy apwyntiad yn unig oedd y rhain, a chynhaliwyd nifer ohonyn nhw yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Felly, roedden nhw’n gyfyngedig o ran yr hyn a oedd yn cael ei gynnig ac roedd lefelau llwyddiant yn amrywio. Cafwyd adborth ynglŷn â’r meysydd lle'r oedd y cynlluniau peilot yn llai llwyddiannus, bod angen mwy o ymgysylltu digidol neu ymweliadau cartref. Sicrhaodd y Swyddog y Cabinet y bydd cymorthfeydd yn parhau i gael eu datblygu a'u hadolygu'n barhaus i sefydlu lefelau galw.

Nododd y Cabinet fod dros 10,700 o lythyrau wedi'u hanfon at aelwydydd tenantiaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymatebion a dderbyniwyd. Serch hynny, roedd dros 70% o'r ymatebion o blaid cael y swyddfeydd allan yn y gymuned yn hytrach nag mewn un lleoliad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn

cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo cau'r Swyddfeydd Tai ym Mharc Lansbury, Graig-y-rhaca a Gilfach yn barhaol, a'r Swyddfa Tai Cymunedol yn Nhŷ Sign.

2. Cymeradwyo trosglwyddo'r Gwasanaeth Landlord o fodel swyddfa traddodiadol i fodel cyflawni yn y gymuned.

3. Cymeradwyo adleoli'r Gwasanaeth Landlord i Dŷ Penallta lle mae Gwasanaeth Tai ehangach Cartrefi Caerffili wedi symud yn ddiweddar.

## 9. UWCHGYNLLUN DRAFFT COED DUON FWYAF.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Uwchgynllun Drafft Coed Duon Fwyaf, a hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori â'r cyhoedd ar yr Uwchgynllun rhwng 3 Ionawr a 14 Chwefror 2024.

Nododd y Cabinet mai hwn yw'r pumed o'r pump uwchgynllun ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Gan ymateb i ymholiadau a godwyd, anerchodd Arweinydd Tîm ar gyfer Cynllunio Strategol y Cabinet ac eglurodd fod yr uwchgynllun drafft yn ddogfen sy'n gosod allan strategaeth ddatblygu a fframwaith i ysgogi gweithgaredd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn yr ardal, a chydlynu mentrau adfywio i wneud y mwyaf o'r manteision posibl i'r Fwrdeistref Sirol. Gan ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch cau banciau, dywedodd y Swyddog fod cydnabyddiaeth bod y gwasanaethau o'r fath a ddarperir yng nghanol trefi yn lleihau. Felly, er nad yw'r ddogfen yn nodi pob cynnig, mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â materion o'r fath.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd wrth y Cabinet fod cynllun creu lleoedd Coed Duon mwy manwl hefyd yn y camau cynnar o gael ei baratoi a bydd yn nodi safleoedd penodol a chyfleoedd datblygu. Eglurodd y Swyddog y byddai cau banciau yn debygol o effeithio ar nifer yr ymwelwyr ar y Stryd Fawr. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill megis Smart Money Cymru a Swyddfeydd Post i ddarparu gwasanaethau bancio, a gall unrhyw adeiladau gwag ddarparu cyfleoedd trwy ail-bwrpasu at ddefnyddiau eraill, megis llety byw neu siopau manwerthu newydd.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet fod Tîm Adfywio'r Awdurdodau yn canolbwyntio ar gyflwyno cynigion adfywio ac yn gweithio'n agos gyda LlC. Mae cael y ddogfen hon yn ei lle (a'i chefnogi gan gynllun creu lleoedd canol y dref) yn hanfodol ac yn darparu'r sail ar gyfer gwneud cais am arian o amrywiaeth o ffynonellau (yn enwedig cyllid Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru). Byddai peidio â chael y ddogfen yn golygu y byddem ni mewn sefyllfa llawer gwannach.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo Uwchgynllun Drafft Coed Duon Fwyaf.

2. Cymeradwyo cyhoeddi Uwchgynllun Drafft Coed Duon Fwyaf ar gyfer sylwadau am gyfnod o chwe wythnos rhwng 3 Ionawr a 14 Chwefror 2024.

## 10. COFRESTR A STRATEGAETH ADEILADAU RHESTREDIG MEWN PERYGL.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gofrestr a Strategaeth Adeiladau mewn Perygl yr Awdurdod sy'n nodi fframwaith ar gyfer cadw a gwella adeiladau rhestredig mewn perygl dros y cyfnod 2023-2028.

Gan ymateb i ymholiad a godwyd, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cynllunio wrth y Cabinet fod y rhan fwyaf o'r strwythurau rhestredig yn y Fwrdeistref mewn perchnogaeth breifat. Er bod gan y Cyngor amrywiaeth o bwerau statudol ar gael, y brif flaenoriaeth yw gweithio gyda pherchnogion i sicrhau gwelliannau a dod â'r adeiladau i ddefnydd buddiol.

Nododd y Cabinet hefyd fod £400,000 ar gael o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu grantiau ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, a bydd y strategaeth hon yn darparu'r sail ar gyfer blaenoriaethu gwariant.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Nodi'r adroddiad a Chofrestr Adeiladau mewn Perygl 2023.

2. Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Adeiladau mewn Perygl.

## 11. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2024/25.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cyfrifiad o Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Cabinet am sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 at ddibenion pennu treth a'r ganran casglu i'w defnyddio.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

Gan nad oedd y Cynghorydd N. George wedi bod yn bresennol drwy gydol y ddadl, nodwyd na chymerodd ran yn y bleidlais.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cytuno bod cyfradd casglu Treth y Cyngor yn cael ei gadw ar 97.50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

2. Cytuno mai Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 fydd 61,292.66, gyda Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob ardal Cyngor Cymuned fel yr amlinellir ym mharagraff 5.6. yr adroddiad.

## 12. YMGYNGHORI AR GYNIGION I WEITHREDU PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR AR EIDDO AC AIL GARTREFI GWAG TYMOR HIR.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal proses ymgynghori ar lefelau premiymau treth y cyngor i'w cymhwyso i anheddau ac ail gartrefi gwag tymor hir.

Mae 'Strategaeth Tai Gwag y Sector Preifat 2023-2028' wedi'i chymeradwyo'n flaenorol gan y Cabinet, ac roedd hyn yn cynnwys mewn egwyddor gytundeb i ymchwilio i gyflwyno premiwm

treth y cyngor i gartrefi gwag i gymell perchnogion eiddo gwag yn y sector preifat i weithredu.

Nododd y Cabinet fod yn rhaid i'r penderfyniad terfynol i gyflwyno premiymau treth y cyngor, a lefel premiymau o'r fath, gael ei wneud gan y Cyngor llawn.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Cabinet ynghylch pwerau disgresiwn sydd gan y Cyngor i godi symiau uwch o dreth y cyngor (premiwm) ar rai anheddau y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn dilyn ymholiadau a godwyd, dywedodd Prif Swyddog Treth y Cyngor a Threthi Annomestig wrth y Cabinet fod eithriad statudol o 6 mis ar ôl i eiddo ddod yn wag, ac ar ôl blwyddyn y gellir codi premiwm.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet, fel rhan o'r ymgynghoriad, y bydd pawb sy'n talu treth y cyngor a allai gael eu heffeithio gan gyflwyno premiymau yn cael eu cysylltu drwy lythyr neu e-bost. Bydd ymgysylltu hefyd â Rhanddeiliaid, Aelodau Etholedig, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a Landlordiaid Cymdeithasol. Bydd swyddogion hefyd yn sicrhau bod manylion yr ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi drwy ein sianeli cyfathrebu arferol. Cysylltir hefyd â gwerthwyr tai, er mwyn iddyn nhw allu hysbysu darpar brynwyr y gallai eiddo gwag fod yn destun premiymau pe bai'r eiddo'n parhau'n wag am gyfnod penodol o amser.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion:

1. Nodi manylion y pwerau disgresiwn sy'n ymwneud â phremiymau treth y cyngor fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

2. Cymeradwyo ymarfer ymgynghori ar lefelau arfaethedig premiymau treth y cyngor a fydd yn berthnasol i anheddau ac ail gartrefi gwag tymor hir fel y nodir yn yr adroddiad.

3. Cyflwyno adroddiad pellach, gan gynnwys canlyniadau'r ymarfer ymgynghori, i'r Cabinet i ystyried a phenderfynu ar lefel premiymau treth y cyngor y byddai'n argymell i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo.

## 13. PRAWF LLES Y CYHOEDD.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i Brawf Lles y Cyhoedd a daethon nhw i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, bod lles y cyhoedd o gadw'r eithriad yn drech na lles y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth ac felly: -

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddyn nhw fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 14. ADRODDIAD DIWEDDARIAD AR FFERM SOLAR CWM IFOR.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad am y rhesymau yn adroddiad y Swyddogion.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:18.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Ionawr 2024.

____________________

CADEIRYDD